

## Mae Maethu Cymru Conwy yn chwilio am ofalwyr maeth, rŵan mwy nac erioed!



Mae Maethu Cymru Conwy yn dra gwahanol i asiantaethau maethu safonol, ni ydy'r rhwydwaith cenedlaethol ar gyfer gwasanaethau maethu Llywodraeth Leol nid-er-elw ledled Cymru. Rydym yn dîm lleol ymroddgar sy'n cydweithio gyda gofalwyr maeth i sicrhau dyfodol gwell i blant yr ardal gan ofalu bod modd iddyn nhw aros yn eu bro pan fo hynny'n briodol.

Mae llawer iawn o resymau pam fod angen

cartref maeth ar blant a phobl ifanc gan gynnwys teuluoedd yn chwalu, salwch neu esgeulustod. Bydd llawer wedi wynebu sefyllfaoedd lle bu eu lles o dan fygythiad a bydd pob un wedi profi cael eu gwahanu a cholled oddi wrth eu teulu biolegol. Mae maethu yn ffordd o ofalu am blant a phobl ifanc pan na allai eu teulu ofalu amdany'n nhw. Fel Gofalwr Maeth gyda Maethu Cymru Conwy, byddwch yn cynnig amgylchedd teuluol diogel a chartrefol lle caiff y plentyn neu berson ifanc eu meithrin a lle gallan nhw ddatblygu. Gallai hyn fod am gyfnod byr neu gyfnod hirach, mae'n dibynnu ar anghenion unigol y plentyn. Mae gennym ni nifer o blant o dan ofal yng Nghonwy o fabanod i bobl ifanc. Rydym wrthi'n recriwtio Gofalwyr Maeth ar hyn o bryd o bob cwr o'r wlad i ddiwallu anghenion plant Conwy.

Mae cam cyntaf eich taith fel Gofalwr Maeth yn un rhwydd. Ewch ati i gysylltu gyda Thîm Maethu Cymru Conwy dros y ffôn, e-bost, ar ein cyfryngau cymdeithasol neu ar ein gwefan. Gallai hyn ymddangos yn ddi-nod ond mae'n gam hollbwysig. Os hoffech chi dderbyn pecyn gwybodaeth, cysylltwch gyda ni ar-lein ar [fosterwlaes.conwy.gov.uk](http://fosterwlaes.conwy.gov.uk), ffoniwch 01492 576350 neu e-bostiwch [fostering@conwy.gov.uk](mailto:fostering@conwy.gov.uk).

**Ein nod yma yn Maethu Cymru Conwy yn sicrhau dyfodol gwell i blant yr ardal. Mae'n hanfodol!**



Os oes gennych chi erthygl neu ddigwyddiad yr hoffech chi eu cynnwys yn **Newyddlen Dolwyddelan** ffoniwch un o'r rhifau ar flaen y rhifyn hon, neu cysylltwch gyda Shaun ar [shaunhewitt@me.com](mailto:shaunhewitt@me.com)